

Adroddiad Arolygu Ysbyty AGIC (Dirybudd)

Uned Achosion Brys ac Uned Asesu,
Ysbyty Athrofaol Cymru, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 20, 21 a 22 Mehefin 2022

Dyddiad cyhoeddi: 30 Medi 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 20, 21 a 22 Mehefin 2022. Adolygwyd yr ardaloedd canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Uned Achosion Brys
- Uned Asesu

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC, un arolygydd gofal iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol, ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan uwch-arolygydd gofal iechyd AGIC.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Dyweddodd mwyafrif y cleifion wrthym fod y staff wedi eu trin â pharch a'u bod wedi cymryd camau i ddiogelu eu preifatrwydd wrth gael eu gweld yn yr Uned Achosion Brys neu'r Uned Asesu.

Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn cytuno bod y staff yn rhoi digon o wybodaeth iddynt i'w helpu i ddeall eu gofal iechyd a'u cyflyrau meddygol.

Gwelsom fod amgylchedd yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu yn effeithio'n negyddol ar breifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd sylwadau gan y staff hefyd yn nodi eu bod yn teimlo bod angen gwella'r amgylchedd er mwyn hyrwyddo gofal urddasol i'r cleifion.

Er bod offeryn asesu poen addas ar gael i asesu a chofnodi poen y cleifion, nid oedd hwn wedi'i gwblhau'n dda gan y staff.

Yn gyffredinol, ni hyrwyddwyd y Gymraeg yn dda o fewn yr Uned Achosion Brys na'r Uned Asesu.

Er bod gwybodaeth ar 'Gweithio i Wella' ar gael, nid oedd yn cael ei harddangos yn amlwg yn yr Uned Achosion Brys na'r Uned Asesu.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen i'r bwrdd iechyd gymryd camau i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion a'r cysur a roddir iddynt
- Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud ymdrechion pellach i hybu defnydd o'r Gymraeg
- Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud ymdrechion pellach i sicrhau bod gwybodaeth ar gael am 'Gweithio i Wella'

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod amgylchedd ffisegol yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu wedi'i gynnal a'i gadw'n wael a'i fod yn anniben.

Yn yr Uned Achosion Brys, roedd cofnodion cleifion yn gyffredinol yn dangos bod y staff nyrsio wedi asesu cleifion am eu risg o ddatblygu briwiau pwyso ac yn darparu gofal croen. Yn yr Uned Asesu, roedd cofnodion hefyd yn dangos bod y staff nyrsio wedi asesu cleifion am eu risg, ond nid oedd tystiolaeth o gynllunio gofal na gweithredu bwndeli SKIN i atal y cleifion rhag datblygu briwiau pwyso.

Yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu, ni chawsom sicrwydd bod prosesau effeithiol ar waith nac yn cael eu dilyn i atal heintiau a gafwyd oherwydd gofal iechyd. Yn ogystal, ni chawsom sicrwydd bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel, na bod gwiriadau cyfarpar brys yn cael eu gwneud yn rheolaidd i nodi eitemau coll fyddai eu hangen mewn argyfwng.

Dywedodd y staff wrthym fod y cyfleusterau yn y ddwy uned yn annigonol ac yn gyffredinol nad oedd ganddynt fynediad hawdd at y cyfarpar yr oedd ei angen arnynt.

Disgrifiodd yr uwch staff nifer o fentrau parhaus ar waith i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth i'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod adborth gan gleifion sy'n defnyddio gwasanaeth y 'Ward Rithwir' wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Achosion o sicrwydd ar unwaith:

Roedd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu'r manylion i ni am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

- hyrwyddo dulliau effeithiol o atal a rheoli heintiau a dihalogi
- sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel
- sicrhau bod cynnwys y troliau dadebru yn cael eu gwirio'n rheolaidd a bod cofnod cywir o'r gwiriadau hyn yn cael ei gadw
- rhoi sicrwydd bod y gofal a ddarperir yn diwallu anghenion y cleifion

Yn ogystal â'r achosion uchod o sicrwydd ar unwaith, dyma'r hyn yr ydym yn argymhell y gall y gwasanaeth ei wella:

- Mae angen i'r bwrdd iechyd gymryd camau i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gynnal i safon ddigonol
- Mae angen i'r bwrdd iechyd gymryd camau i ymateb i sylwadau llai ffafriol y staff mewn perthynas â'r cyfleusterau yn y ddwy uned a'r mynediad at gyfarpar, a mynd i'r afael â hyn

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Disgrifiwyd mentrau i wella'r gwasanaeth i gleifion
- Roedd nyrsys trais ac agored i niwed yn cael eu cyflogi ac yn rhan annatod o'r tîm diogelu
- Cynhaliwyd 'sgrym' diogelwch cleifion bob dwy awr i rannu gwybodaeth berthnasol am weithrediad yr unedau

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythur rheoli addas ar waith a disgrifiodd yr uwch staff lwybrau adrodd clir.

Gwelsom fod archwiliadau perthnasol yn cael eu cynnal ond, o ystyried ein canfyddiadau o'r arolygiad hwn, ni chawsom sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y gweithgarwch archwilio a'r prosesau dilynol a ddefnyddiwyd.

Roedd yr ymatebion gan y staff sy'n gweithio yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu yn negyddol ar y cyfan, gyda materion yn cael eu codi ynghylch yr amgylchedd, diffyg cyfarpar, lefelau staffio a chymysgedd sgiliau annigonol, a pherthynas wael ag uwch-reolwyr.

Achosion o sicrwydd ar unwaith:

Roedd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i ni am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:

- gwella cydymffurfedd â hyfforddiant dadebru gorfodol

Yn ogystal â'r achos uchod o sicrwydd ar unwaith, dyma'r hyn yr ydym yn argymhell y gall y gwasanaeth ei wella:

- Mae angen i'r bwrdd iechyd geisio sicrwydd bod gweithgarwch archwilio a phrosesau dilynol yn effeithiol
- Mae angen i'r bwrdd iechyd gymryd camau i ymateb i'r sylwadau llai ffafriol gan y staff a amlygwyd yn adran 'Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth' yr adroddiad hwn a mynd i'r afael â nhw
- Mae angen i'r bwrdd iechyd gymryd camau i wella cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol arall

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalwyr. Cwblhawyd cyfanswm o 15, wyth gan gleifion yn yr Uned Achosion Brys a saith gan gleifion yn yr Uned Asesu. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Maent yn gwneud gwaith ardderchog.”

“Popeth wedi bod yn iawn, dim ond wedi bod yno am ddwy awr.”

“Hoffwn ddiolch i'r staff.”

Ar gyfer yr Uned Achosion Brys, dywedodd pum claf a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a gawsant yn 'dda iawn' neu'n 'dda' a dywedodd tri ei fod yn 'wael'.

Ar gyfer yr Uned Asesu, nododd pum claf a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a gawsant yn 'dda iawn' neu'n 'dda' a dywedodd dau ei fod yn 'wael iawn'.

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Yn yr Uned Achosion Brys, gwelsom wybodaeth ysgrifenedig wedi'i harddangos yn cynghori cleifion am bwysigrwydd yfed ddigon.

Yn yr Uned Asesu, gwelsom wybodaeth ysgrifenedig wedi'i harddangos yn hyrwyddo menter 'Dressed is Best'.

O fewn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu, gwelsom hefyd amrywiaeth o daflenni wedi'u harddangos yn darparu cyfarwyddiadau a chynghor ysgrifenedig ar ôl rhyddhau a gwybodaeth hybu iechyd. Roedd y rhain ar gael i'r cleifion a'u gofalwyr fynd â nhw gyda nhw.

Rhannwyd yr Uned Asesu yn ddwy ardal benodol. Fodd bynnag, nid oedd yr wybodaeth a arddangoswyd a'r taflenni a oedd ar gael yn gyson yn y ddwy ardal nac mewn man canolog.

Gofal ag urddas

Gofal ag urddas

Yn gyffredinol, gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu. Fodd bynnag, roedd dau achlysur yn ystod ein harolygiad pan welsom staff yn peidio â chydabod cleifion neu eu cynrychiolwyr a oedd yn aros i siarad ag aelod o staff. Arweiniodd hyn at y tîm arolygu yn ymyrryd.

Yn ogystal, gwelsom aelod o staff yn tynnu canwla oddi ar glaf yn nerbynfa'r Uned Achosion Brys yn lle gwneud hyn mewn ciwbicl. Gwelsom hefyd glaf yr oedd ei urddas wedi'i beryglu wrth gerdded o amgylch yr Uned Asesu ac roedd oedi cyn i'r staff roi sylw i'r claf.

Gwelsom boteli wrin wedi'u defnyddio yn cael eu gadael ar fyrddau wrth erchwyn gwelyau'r cleifion ac, ar adegau, nid oedd cleifion bob amser wedi'u gorchuddio'n briodol â chynfasau neu flancedi i gynnal eu hurddas.

Gwelsom doiledau nad oedd modd eu defnyddio trwy gydol ein harolygiad ac nid oedd y clo yn gweithio yn un o'r toiledau i atal pobl rhag mynd i mewn pan oedd yn cael ei ddefnyddio.

Gwelsom fod yr amgylchedd yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu yn effeithio'n negyddol ar breifatrwydd ac urddas y cleifion.

Nid oedd digon o seddi ar gyfer nifer y cleifion a oedd yn mynychu'r Uned Achosion Brys gyda'r nos ar 20 Mehefin ac yn ystod y dydd ar 21 Mehefin. Gwelsom un claf yn eistedd ar y llawr a chleifion eraill yn eistedd ar finiau mewn coridor.

Yn yr Uned Asesu, roedd cleifion yn cael eu nyrsio'n agos at ei gilydd, gan wneud mynediad yn anodd ac weithiau yn peryglu eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd rhai cleifion yn cael eu nyrsio mewn cadeiriau â chefn uchel, na fwriadwyd iddynt orffwys ynddynt am gyfnodau hir neu i gysgu. Gwelsom fod un claf a oedd wedi cael ei letya yno dros nos wedi cysgu gan ddefnyddio trefniant o ddwy gadair â chefn uchel iddynt nad oedd yn codi a gostwng. Cadarnhaodd uwch aelodau o staff fod cadeiriau codi a gostwng wedi'u prynu i hyrwyddo cysur y cleifion.

Roedd offeryn asesu poen addas ar gael i'r staff nyrsio ei gwblhau fel rhan o'u hasesiad o gleifion. Fodd bynnag, ar y cyfan, o fewn y sampl o gofnodion gofal a archwiliwyd gennym yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu, nid oedd hwn yn cael ei gwblhau'n dda gan y staff.

Ar gyfer y cleifion yn yr Uned Achosion Brys, roedd pawb a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, a dywedodd bron wrth ddwy

ran o dair o'r ymatebwyr wrthym fod camau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd.

O ran y cleifion yn yr Uned Asesu, dywedodd tua thri chwarter y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, eu bod wedi bod yn gwrtais, a bod camau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron ar-lein i gael safbwyntiau ac adborth gan y staff. Cwblhawyd cyfanswm o 78, sef 63 gan y staff yn gweithio yn yr Uned Achosion Brys a 15 gan y staff yn gweithio yn yr Uned Asesu. Cafwyd ymatebion gan y staff sy'n gweithio mewn amrywiaeth o rolau clinigol.

Ar gyfer yr Uned Achosion Brys, roedd 19 o'r 63 aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal ac roedd 44 yn anghytuno. Yng ngeiriau'r staff:

“Nid yw nyrso cleifion mewn cadeiriau am fwy na 12 awr yn cynnal urddas ac nid yw'n ffafriol ar gyfer darparu gofal nyrso da ac effeithiol.”

“Mae urddas a diogelwch ein cleifion wedi'u peryglu bron yn ddyddiol am gyfnod hir a pharhaol.”

“Cyfleusterau gwael ar gyfer ymolchi. Cleifion mewn cadeiriau am ddyddiau a dim unman addas i gael ymolchi.”

“Dim mynediad i ffynnon ddŵr / peiriannau gwerthu ar gyfer y cleifion. Nid yw anghenion sylfaenol yn cael eu diwallu.”

Ar gyfer yr Uned Asesu, dim ond un o'r 15 aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC a gytunodd fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal ac roedd 14 yn anghytuno. Dywedodd ymatebydd:

“... newidiodd yn ddiweddar o ardal 12 gwely i ardal wyth gwely a deg cadair. Mae cleifion yn aml yn y cadeiriau am fwy na phedwar diwrnod cyn mynd adref neu i ward ac rwy'n teimlo bod angen i hyn ddychwelyd i ardal 12 gwely er mwyn urddas a diogelwch y cleifion.”

Cyfathrebu'n effeithiol a gwybodaeth i gleifion

Hysbyswyd cleifion a oedd yn mynychu'r Uned Achosion Brys wrth gyrraedd am yr amser aros cyn cael eu gweld. Dywedwyd wrthym y byddai'n rhaid i gleifion sy'n dymuno cael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr amser aros siarad â'r staff gan nad oedd yr wybodaeth hon yn cael ei harddangos na'i chyhoeddi.

Roedd ôl troed yr Uned Achosion Brys yn cael ei ad-drefnu ar adeg ein harolygiad, ac roedd arwyddion dros dro wedi'u harddangos yn glir i gynorthwyo cleifion ac ymwelwyr i ddod o hyd i'r fynedfa gywir i'w defnyddio. Roedd y staff hefyd ar gael wrth y brif fynedfa i roi help a chymorth yn hyn o beth. O fewn yr uned, roedd angen arwyddion i ddangos yn glir y gwahanol ystafelloedd a ddefnyddir gan dimau eraill o fewn yr uned.

Roedd arwyddion yn cael eu harddangos i gynorthwyo cleifion ac ymwelwyr i ddod o hyd i'r Uned Asesu, a oedd wedi'i rhannu'n ddwy ardal wahanol.

Roedd arwyddion wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu i helpu cleifion ac ymwelwyr i ddod o hyd i'r toiledau. Roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân hefyd.

Gwelsom wybodaeth yn cael ei harddangos yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, yn gyffredinol ni hyrwyddwyd y Gymraeg yn dda o fewn yr Uned Achosion Brys na'r Uned Asesu.

Ar gyfer y cleifion yn yr Uned Achosion Brys, roedd bron i ddwy ran o dair o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno eu bod yn cael digon o wybodaeth i'w helpu i ddeall eu gofal iechyd.

Ar gyfer y cleifion yn yr Uned Asesu, roedd tua hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod y staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol i'w cynorthwyo i'w deall.

Ar gyfer yr Uned Achosion Brys, cytunodd 33 o'r 62 aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC fod digon o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion. Gwnaethom ofyn a yw cleifion a/neu eu perthnasau yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu gofal, ac roedd 50 o'r 63 aelod o staff yn cytuno, gydag 13 yn anghytuno.

Ar gyfer yr Uned Asesu, cytunodd pump o'r 15 aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC y darperir digon o wybodaeth i gleifion. Gwnaethom ofyn a yw cleifion a/neu eu perthnasau yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu gofal, ac roedd naw o'r 15 yn cytuno, gyda chwech yn anghytuno.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Ar ddiwrnodau ein harolygiad, roedd yr Uned Achosion Brys yn hynod o brysur gyda chleifion yn aros i gael eu gweld o fewn yr uned ac ar yr ambiwlansys yn aros y tu allan. Ar y noson pan gyrhaeddom yr Uned Achosion Brys, roedd pedwar ambiwlans y tu allan, tri ohonynt yn aros i ddadlwytho cleifion. Roedd y staff yn ymwybodol

o'r sefyllfa ac roedd trefniadau uwchgyfeirio priodol ar waith. Cadarnhaodd y staff fod y lefel uwchgyfeirio ar gyfer yr uned ar Lefel 4. Roedd y lefel uwchgyfeirio hon yn parhau drwy gydol amser yr arolygiad.

Canfuom fod y cleifion wedi cael eu brysbennu o fewn awr o gyrraedd yr uned a dywedwyd wrthym, pe bai claf yn cael ei nodi fel un sy'n gwaethygu, y byddai hyn yn cael ei uwchgyfeirio yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

Ar gyfer yr Uned Achosion Brys, dywedodd pedwar o'r wyth claf a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi aros hyd at bedair awr cyn cael triniaeth, roedd tri chlaf wedi aros dros bedair awr a hyd at wyth awr, ac roedd un claf wedi aros dros wyth awr a hyd at ddeuddeg awr.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn yr Uned Asesu wrthym nad oedd yn rhaid iddynt aros yn hir i gael cymorth gan y staff pan oedd ei angen arnynt. Cadarnhaodd bron i dri chwarter y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC, pan oeddent wedi defnyddio seinydd galw nyrs, fod y staff wedi dod atynt.

Ar gyfer yr Uned Achosion Brys, dywedodd naw o'r 63 aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC fod y cleifion yn cael eu hasesu o fewn y targed o bedair awr, dywedodd 46 fod hyn yn digwydd weithiau, a dywedodd wyth nad yw hyn yn digwydd.

“Oherwydd cyfanswm mawr o gleifion, mae yna bob amser aros hir am frysennu - nid oes digon o le i agor rhagor o ystafelloedd brysbennu, gan felly arwain at oedi cyn cynnal asesiad cychwynnol cleifion wrth iddynt gyrraedd.”

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

O fewn y sampl o gofnodion gofal cleifion a archwiliwyd gennym, roedd tystiolaeth o gyfraniad y tîm amlddisgyblaethol wrth gynllunio gofal i gleifion yn yr Uned Achosion Brys. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth o hyn yn yr Uned Asesu.

Hawliau pobl

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod cleifion yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu yng nghwmni eu ffrindiau neu deulu yn unol â'u dymuniadau.

Gwelsom hefyd fod ystafell ar gael pe bai'r cleifion yn dymuno treulio amser gyda'u ffrindiau neu deulu yn breifat.

Roedd gan yr Uned Achosion Brys ardal bediatrig ddynodedig, wedi'i lleoli i ffwrdd o'r brif ystafell aros ac wedi'i haddurno'n addas i blant, lle gallai plant aros a chael eu gweld am driniaeth.

Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisi ysgrifenedig ar reoli cwynion a oedd yn cyd-fynd â 'Gweithio i Wella'.

Yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu, roedd gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i gleifion a'u cynrychiolwyr ar 'Gweithio i Wella' yn y taflenni cyngor ar ôl rhyddhau. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth arall ynglŷn â hyn yn cael ei harddangos yn amlwg yn naill ai'r Uned Achosion Brys na'r Uned Asesu.

Ar gyfer yr Uned Achosion Brys, cytunodd 39 o'r 63 aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC fod adborth am brofiad y cleifion yn cael ei gasglu yn eu hadran, roedd 11 yn anghytuno, ac nid oedd 13 yn gwybod.

Gwnaethom ofyn a oedd y staff yn derbyn diweddariadau ar adborth profiad y cleifion yn eu hadran. Roedd 34 o'r 63 a atebodd yn cytuno, roedd 22 yn anghytuno, ac nid oedd saith yn gwybod. Dywedodd aelod o staff:

"Yn yr adborth oddi wrth y cleifion, mae rhieni'n aml yn cwyno ei bod yn hen ac wedi torri, ei bod yn anghyfforddus gyda mynediad gwael at fwyd, dŵr a thoiledau heb unrhyw gyfleusterau sy'n canolbwyntio ar blant."

Gwnaethom ofyn i'r staff a ddefnyddir yr adborth gan gleifion i wneud penderfyniadau gwybodus yn eu hadran. Roedd 29 o'r 62 a atebodd yn cytuno, roedd wyth yn anghytuno, ac nid oedd 25 yn gwybod.

Ar gyfer yr Uned Asesu, roedd chwech o'r 15 aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod adborth profiad y cleifion yn cael ei gasglu o fewn eu cyfarwyddiaeth/adran, dywedodd chwech nad yw hyn yn digwydd, ac nid oedd tri yn gwybod.

Gwnaethom ofyn i'r staff a ydynt yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth profiad y cleifion. Dywedodd un o'r 15 o'r ymatebwyr eu bod nhw, dywedodd 11 nad ydynt, ac nid oedd tri yn gwybod.

Gwnaethom ofyn i'r staff a ddefnyddir yr adborth gan gleifion i wneud penderfyniadau gwybodus yn eu hysbyty. Dywedodd dau o'r 15 o ymatebwyr fod hyn yn digwydd, dywedodd chwech nad yw'n digwydd, ac nid oedd saith yn gwybod.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu yn hawdd eu cyrraedd i gleifion ac ymwelwyr ag anawsterau symudedd. Fodd bynnag, gwelsom annibendod yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu a oedd yn achosi peryglon baglu i gleifion a'r staff.

Yn gyffredinol, canfuom fod amgylchedd ffisegol yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu wedi'i gynnal a'i gadw'n wael.

Ar gyfer yr Uned Achosion Brys, roedd naw o'r 63 aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod cyfleusterau yn yr Uned Achosion Brys yn briodol iddynt gyflawni eu tasgau penodol ac roedd 54 yn anghytuno. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Dim digon o le i'n cleifion, yn aml yn nyrsio cleifion sy'n sâl neu hyd yn oed mewn cyflwr critigol mewn rhannau anniogel o'r adran...”

“Nid oes digon o ardaloedd i baratoi meddyginiaethau.”

“Dylai'r gwaith trawsnewid parhaus wella'r cyfleusterau.”

“Mae'r ciwbiclau lle rydyn ni'n gweld y cleifion yn rhy fach, ac ni allwch osod tîm dadebru a chyfarpar hanfodol o amgylch y cleifion - mae'r digwyddiad hwn wedi cael ei adrodd sawl gwaith. Mae'n bryder diogelwch gwirioneddol, ac mae'n benodol i'r uned bediatrig yn yr adran achosion brys.”

“Dim ystafell dawelyddu i dawelyddu plant yn ddiogel heb feddiannu'r unig gilfan dadebru pediatrig yn y ganolfan ar gyfer trawma mawr.”

“Mae'r ardal dadebru pediatrig mewn ardal wahanol i fan pediatrig yr Uned Achosion Brys, sy'n golygu bod angen i dîm pediatrig yr Uned Achosion Brys adael yr adran (fel arfer yn llawn plant sâl /nas gwahaniaethir) i reoli achos dadebru.”

“Rydym yn aml yn gweld plant ag anafiadau llosgiadau a rhan bwysig iawn o'u rheolaeth yw oeri â dŵr a dihalogi. Nid oes gennym y cyfleusterau i wneud hyn ac felly rydym wedi gorfod ceisio gosod plant sydd wedi llosgi mewn sinciau neu fynd â nhw i ystafell newid y staff i ddod o hyd i gawod i'w gosod oddi tano - mae hyn yn gwbl amhriodol ac, a dweud y gwir, yn embaras. Mae hwn yn ofal sylfaenol na allwn ei ddarparu.”

Atal niwed pwyso a niwed i feinwe

Yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu, gwelsom fod cyfarpar lleddfu pwyso ar gael ac yn cael ei ddefnyddio.

Gwelsom fod offeryn asesu risg priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt asesu risg y cleifion o ddatblygu briwiau pwyso.

Yn yr Uned Achosion Brys, archwiliwyd cofnodion gofal sampl o chwe chlaf. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion yn dangos bod y staff wedi asesu ac ailasesu cleifion i nodi eu risg a bod gan y rhan fwyaf o gleifion gynllun gofal ysgrifenedig addas ar waith. Roedd y cofnodion hefyd yn dangos bod y rhan fwyaf o gleifion wedi cael eu hadleoli'n aml fel rhan o'u gofal croen.

Yn yr Uned Asesu, archwiliwyd cofnodion gofal sampl o bedwar claf. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion yn dangos bod y staff wedi asesu'r cleifion i nodi eu risg. Fodd bynnag, nid oedd cynllun gofal ysgrifenedig ar gael i'r rhan fwyaf o'r cleifion ac nid oedd tystiolaeth yn y cofnodion i ddangos bod y cleifion wedi cael eu hadleoli fel rhan o'u gofal croen. Nid oedd tystiolaeth ychwaith i ddangos bod y staff wedi ailasesu cleifion.

Atal cwympiadau

Gwelsom fod offeryn asesu risg cwympo addas ar gael i staff asesu risg y cleifion o gwympo. Fodd bynnag, o fewn y sampl o gofnodion gofal a archwiliwyd gennym yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu, ar y cyfan nid oedd hwn yn cael ei gwblhau gan y staff.

O fewn yr Uned Achosion Brys, roedd cynlluniau gofal ysgrifenedig ar waith ar gyfer y cleifion hynny y nodwyd eu bod mewn perygl o gwympo.

Yn yr Uned Asesu, nid oedd cynlluniau gofal ysgrifenedig ar waith ar gyfer y cleifion y nodwyd eu bod mewn perygl o gwympo.

Atal a rheoli heintiau

Yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu, gwelsom fod ardaloedd yn anniben ac nad oeddent yn hwyluso glanhau effeithiol. Yn ogystal, nid oedd integreidd cyffredinol gwael y waliau, y lloriau a'r architraf pren yn caniatáu glanhau effeithiol.

Gwelsom fod y sinciau o fewn y llefydd golchi i'w gweld yn fudr, roedd staeniau ar gomodau ac roedd yr olwynion i'w gweld yn fudr, ac roedd biniau gwastraff clinigol yn rhydlyd ac nid oedd y caeadau'n cau'n iawn. Gwelsom hefyd fod y sinc yn un o'r toiledau i'w weld yn fudr, bod gorchuddion ar rai o'r cadeiriau wedi'u rhwygo, gan

amlygu'r clustogwaith, bod y cynwysyddion diheintio dwylo ar y wal yn wag, a bod biniau offer miniog meddygol yn orlawn.

Nid oedd labeli'n cael eu defnyddio fel mater o drefn i ddangos pryd roedd cyfarpar wedi cael ei lanhau a'i ddiheintio, ac er bod llenni tafladwy yn cael eu defnyddio, nid oedd dyddiad ar y rhain i ddangos pryd y dylid eu newid.

Er inni weld staff yn golchi ac yn diheintio eu dwylo, gwelsom fod cyfleoedd yn cael eu colli lle dylai'r staff fod wedi golchi eu dwylo.

Gwelsom fod lle golchi wedi bod allan o wasanaeth ers mis Rhagfyr 2021 ac nad oedd dyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith atgyweirio.

Ar gyfer yr Uned Achosion Brys, roedd tri chwarter y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo bod yr amgylchedd yn weddol lân a dywedodd gweddill y cleifion wrthym nad oedd yn lân iawn neu ddim yn lân o gwbl.

Ar gyfer yr Uned Asesu, roedd bron pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo bod yr amgylchedd yn lân iawn.

Ar gyfer yr Uned Achosion Brys, roedd 41 o'r 63 aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith ac roedd 22 yn anghytuno.

Ar gyfer yr Uned Asesu, roedd chwech o'r 15 aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith ac roedd naw yn anghytuno.

Roedd wyth o'r 15 o ymatebwyr yn cytuno bod cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol a bod trefniadau diheintio priodol ar gyfer cyfarpar ac ardaloedd perthnasol, ac roedd saith yn anghytuno.

Maeth a hydradu

Gwelsom fod offeryn sgrinio maeth addas ar gael i'r staff sgrinio cleifion ag ef. Fodd bynnag, o fewn y sampl o gofnodion gofal a archwiliwyd gennym, yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu, ar y cyfan ni chafodd hwn ei gwblhau. Yn ogystal, nid oedd gan y rhan fwyaf o gleifion gynllun gofal ysgrifenedig ar waith.

Gwelsom gleifion ym man aros yr Uned Achosion Brys a'r rhai a oedd yn aros mewn ambiwlansys yn cael cynnig diodydd poeth neu oer a bisgedi yn rheolaidd yn ystod y dydd. Mewn rhannau eraill o'r Uned Achosion Brys ac yn yr Uned Asesu, gwelsom fod y cleifion yn cael cynnig grawnfwyd brechwast, brechdanau a chawl, a diodydd poeth neu oer yn ystod y dydd.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi ysgrifenedig ar gael ar gyfer rheoli meddyginiaethau.

Yn yr Uned Achosion Brys, gwelsom nad oedd ystafelloedd storio bob amser yn cael eu cloi i atal mynediad heb awdurdod a gwelsom fod meddyginiaethau wedi'u gadael heb neb i ofalu amdanynt ar y cownteri. Nodwyd gennym hefyd ddau lestr o feddyginiaethau 'cymysg' (nad oeddent yn eu blychau gwreiddiol) yn cael eu storio mewn un ystafell.

Yn ogystal, nid oedd unrhyw gofnodion i ddangos bod tymheredd yr oergelloedd wedi cael ei wirio neu, lle'r oedd cofnodion ar gael, gwelsom fylchau yn y cofnodion. Nid oedd unrhyw gofnodion i ddangos bod tymheredd amgylchol yr ystafell wedi'i wirio.

Gwelsom hefyd nad oedd silindrau ocsigen wedi'u gosod bob amser yn ddiogel, i'w hatal rhag cwmpo, a oedd yn achosi perygl posibl i staff a diogelwch y cleifion yn yr ardaloedd hynny.

Gwelwyd bod y troli sepsis heb ei gloi a nodwyd bod gwrthfotigau mewnwythiennol ar goll.

Gwnaethom hefyd arolygu cofnodion ar gyfer cyffuriau a reolir. Gwelsom fod y cofnodion yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu yn anghyflawn ac ni chawsom sicrwydd bod gwiriadau stoc dyddiol yn cael eu cynnal yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

Defnyddiwyd bandiau arddwrn adnabod cleifion yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu. Yn ystod cyfnod yr arolygiad, gwelsom un claf yn yr Uned Achosion Brys a dau glaf yn yr Uned Asesu nad oedd ganddynt fandiau arddwrn. Gall hyn gynyddu'r risg y bydd cleifion yn cael y feddyginiaeth anghywir neu'n cael triniaeth nas bwriadwyd ar eu cyfer. Fe wnaethom uwchgyfeirio hyn i staff uwch fel y gellid cymryd camau cywiro.

Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl

Roedd gan y bwrdd iechyd weithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer ymateb i bryderon diogelu mewn perthynas â phlant ac oedolion mewn perygl. Gwelsom fod y staff yn gallu cael gafael ar y rhain yn electronig drwy fewnwyd y bwrdd iechyd.

Cadarnhaodd data hyfforddiant, a ddarparwyd i ni gan staff uwch yn ystod yr arolygiad, fod 69.61% o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu oedolion a 65.93% wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant, y ddau ar Lefel 1. Dylai staff clinigol gwblhau hyfforddiant o'r fath ar Lefel 2 ac mae angen i'r bwrdd iechyd gymryd camau priodol i sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant ar lefel sy'n addas i'w rôl.

Roedd y bwrdd iechyd yn cyflogi nyrsys trais ac agored i niwed a oedd wedi'u lleoli yn yr Uned Achosion Brys ac yn rhan annatod o'r tîm diogelu. Dywedodd y staff wrthym y byddai canolfan agored i niwed yn cael ei lansio'n fuan a fyddai'n cynnwys y nyrsys hyn, y tîm trais domestig a gwirfoddolwyr o'r Groes Goch.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod gan y staff fynediad at amrywiaeth o gyfarpar i ddiwallu anghenion y cleifion yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu. Roedd y cyfarpar a welsom mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Fodd bynnag, roedd sylwadau gan y staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn nodi bod angen mwy o gyfarpar.

Yn yr Uned Achosion Brys, cytunodd 11 o'r 63 o staff a gwblhaodd holiadur AGIC fod ganddynt ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar digonol i wneud eu gwaith ac roedd 52 yn anghytuno. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Weithiau mae diffyg cyfarpar sylfaenol, e.e. peiriannau arsylwi, mesuryddion tymheredd, gwifrau ar gyfer peiriannau monitro'r galon.”

“Yn aml, mae cyfarpar a chyfleusterau yn cael eu torri. Treulir llawer o amser yn chwilio o amgylch yr adran am yr offer sydd eu hangen arnoch i wneud tasg sylfaenol. Wrth adrodd i'r adran ystadau, mae'n aml yn cymryd amser hir cyn i rywbeth sy'n achosi problem gael ei drwsio.”

“Stoc annigonol ar sawl achlysur, gan wneud i ni ddibynnu ar haelioni'r wardiau i fenthyg stoc.”

Yn yr Uned Asesu, cytunodd un aelod o staff fod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith. Dywedodd aelod o staff:

“Diffyg cyfarpar i wneud y gwaith, yn aml yn chwilio am gadeiriau olwyn, peiriannau arsylwi, ac ati.”

Disgrifiodd y staff drefniadau addas ar gyfer adrodd am offer a nodwyd yn ddiffygiol. Pan ganfuwyd bod offer yn ddiffygiol, dywedwyd wrthym fod y rhain yn cael eu labelu felly, i rybuddio'r staff eraill.

Archwiliwyd cofnodion gwiriadau a gynhaliwyd o gynnwys troliau dadebru yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu. Gwelsom fod cofnodion yn anghyflawn ac ni chawsom sicrwydd bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal i nodi eitemau coll yr oedd eu hangen mewn argyfwng.

Roedd cofnodion un troli yn dangos nad oedd gwiriadau wedi'u cynnal rhwng 1 a 14 Mehefin a rhwng 16 a 19 Mehefin 2022, ac roedd cofnodion troli arall yn dangos nad oedd gwiriadau wedi'u cynnal ar 2, 4, 6, 10, 18 a 19 Mehefin 2022.

Roedd y cofnodion ar gyfer y troli llwybr anadlu anodd yn dangos bod gwiriad wedi'i gwblhau ar 16 Ebrill 2022 a nododd hwn fod rhai eitemau naill ai wedi dod i ben neu ar goll. Nid oedd y cofnod wedi'i ddiweddarau i ddangos a oedd eitemau newydd wedi cael eu caffael yn lle'r eitemau hyn.

Gofal effeithiol

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Disgrifiodd uwch staff fentrau i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys 'Ward Rithwir', a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2021, a oedd yn caniatáu i ofal iechyd gael ei ddarparu i gleifion yn eu cartrefi gyda'r nod o leihau'r angen am dderbyniadau i'r ysbyty lle y gellid eu hosgoi. Dywedwyd wrthym fod adborth gan gleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Darparodd uwch staff hefyd drosolwg o'r Rhaglen Drawsnewid - Trawsnewid Profiad Cleifion a Staff a'r gwahanol brosiectau sy'n cael eu datblygu mewn perthynas â gwella gwasanaethau meddygaeth frys ac aciwt y bwrdd iechyd.

Gwelsom hefyd fod ymdrechion yn cael eu gwneud o fewn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu i ddatblygu'r gwasanaethau a ddarperir gan y Groes Goch i wella profiad y claf.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod systemau technoleg gwybodaeth addas ar waith ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth berthnasol ac ar gyfer cynhyrchu adroddiadau rheoli.

Disgrifiodd uwch staff sut roedd 'sgrymiau' diogelwch yn cael eu cynnal bob dwy awr i rannu gwybodaeth berthnasol am weithrediad yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu. Gwelsom gofnodion o'r 'sgrymiau' hyn, a oedd yn cynnwys camau y cytunwyd arnynt i hyrwyddo diogelwch y cleifion ac ansawdd gofal, ac i wella llif y cleifion drwy'r unedau.

Ar gyfer yr Uned Achosion Brys, roedd 36 o'r 63 aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno eu bod yn gallu cael mynediad at y systemau TGCh sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal a chymorth da i gleifion ac roedd 26 yn anghytuno. Yng ngeiriau'r staff:

"Does dim digon o gyfarpar TG. Mae'r cyfarpar yn hen ffasiwn ac yn araf, sydd yn ychwanegu at yr oedi wrth brosesu."

“[Mae arnom angen] cyfrifiaduron ac argraffwyr sy’n gweithio’n gyson gyda diweddariadau/gwiriadau rheolaidd (gan gynnwys argraffydd presgripsiwn y fferyllfa).”

Ar gyfer yr Uned Asesu, roedd saith o’r 15 a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno eu bod yn gallu cael mynediad at y systemau TGCh sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal a chymorth da i gleifion, ac roedd wyth yn anghytuno.

Cadw cofnodion

Roedd y fformat a ddefnyddid ar gyfer cofnodion gofal cleifion yn yr Uned Achosion Brys a’r Uned Asesu wedi’i gynllunio’n dda ac yn hawdd ei ddefnyddio.

Fodd bynnag, o fewn y sampl o gofnodion gofal cleifion a archwiliwyd gennym, nid oedd asesiadau risg wedi’u cwblhau bob amser ac nid oedd cynlluniau gofal ysgrifenedig wedi’u datblygu.

Er bod y llawysgrifen yn y cofnodion gofal a archwiliwyd gennym yn ddarllenadwy, canfuom nad oedd y rhan fwyaf o’r cofnodion gofal yn yr Uned Achosion Brys wedi’u llofnodi na’u dyddio gan yr unigolyn a oedd yn gwneud y cofnod. Roedd cofnodion gofal yn yr Uned Asesu wedi’u llofnodi a’u dyddio.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwnaethom gadarnhau bod strwythur rheoli addas ar waith ar gyfer yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu a disgrifiodd uwch staff lwybrau adrodd ac uwchgyfeirio clir.

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch fel rhan o drefniadau llywodraethu a monitro'r bwrdd iechyd ar gyfer hyn.

Darparodd uwch staff enghreifftiau o archwiliadau a gynhaliwyd yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu. Roedd y rhain yn ystyried meysydd sy'n berthnasol i'r ddwy uned, megis adborth gan gleifion, adborth gan staff, yr amgylchedd a chyfleusterau, cwblhau dogfennau asesu risg cleifion, ac atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, o ystyried ein canfyddiadau o'r arolygiad hwn, mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried effeithiolrwydd y prosesau archwilio a dilynol a ddefnyddir.

Drwy gydol ein harolygiad, sicrhaodd uwch aelodau o staff eu bod ar gael i siarad â thîm arolygu AGIC ac fe wnaethant ymgysylltu'n gadarnhaol iawn â'r broses.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Gwnaethom gadarnhau bod staff meddygol, staff nyrsio, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a staff cymorth yn gweithio yn y ddwy uned.

Cadarnhaodd uwch staff fod nifer o swyddi gwag ar draws y ddwy uned a bod recriwtio'n digwydd yn barhaus i lenwi'r swyddi gwag hyn. Dywedodd uwch staff fod nifer y staff wedi cynyddu oherwydd COVID-19. Dywedwyd wrthym fod y lefelau staffio hyn a'r cymysgedd sgiliau hwn yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gan fod ôl troed yr adran wedi newid, gan arwain at fwy o gapasiti. Lle canfuwyd diffygion, cadarnhaodd uwch staff fod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddiogelu bod yna staff banc neu asiantaeth neu fod goramser yn cael ei gynnig. Lle na ellid cael staff ychwanegol, dywedwyd wrthym y byddai angen i'r staff weithio ar draws yr unedau yn dilyn asesiad risg.

Dywedwyd wrthym fod nifer y staff ar gyfer yr adran ar ei newydd wedd i'w gytuno.

Adborth gan staff

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron ar-lein i gael safbwyntiau ac adborth gan y staff. Cafodd cyfanswm o 78 eu cwblhau, 63 gan staff yn gweithio yn yr Uned Achosion Brys a 15 gan staff yn gweithio yn yr Uned Asesu.

Roedd yr ymatebion a sylwadau gan staff sy'n gweithio yn yr **Uned Achosion Brys** yn negyddol ar y cyfan, gyda'r materion a ganlyn yn cael eu nodi:

- Defnydd amhriodol o'r Uned Achosion Brys fel 'ward ddal' ar gyfer cleifion sydd angen eu derbyn oherwydd nad oes gwelyau ysbyty ar gael
- Diffyg lle, oherwydd cynnydd yn nifer y cleifion, a llif gwael
- Lefelau annigonol o staff, a chymysgedd sgiliau a phrofiad annigonol i fodloni'r galw / rheoli nifer y cleifion, a rhoi'r gofal a thriniaeth orau posibl - yn nodedig, dim ond un ymatebwr a deimlai fod digon o staff i'w alluogi i wneud ei waith yn iawn
- Cyfleusterau, cyfarpar a stoc annigonol o hanfodion sylfaenol i alluogi gofal priodol ac urddasol i gleifion
- Perthynas wael rhwng uwch-reolwyr a'r staff oherwydd diffyg amlygrwydd gan yr uwch-reolwyr a chanfyddiad y staff nad yw uwch-reolwyr yn hawdd mynd atynt ac nad ydynt yn gwrandao ar bryderon y staff
- Morâl gwael y staff, oherwydd pwysau staffio / llwyth gwaith, canfyddiad o fethu â darparu gofal diogel ac effeithiol, a theimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi na'u cefnogi

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae amgylchedd yr Uned Achosion Brys yn anaddas i gleifion - nid yw anghenion sylfaenol yn cael eu diwallu, e.e. tymheredd, mynediad at fwyd a diodydd poeth, dim cawodydd, cyfleusterau toiled, cadeiriau anghyfforddus, diffyg urddas, dim digon o beiriannau dŵr.”

“Nid yw'n addas i'r pwrpas, dim digon o le, er bod ymdrechion yn cael eu gwneud i'w wella, mae yna ormod o gleifion ar gyfer y lle o hyd.”

“Nid yr Uned Achosion Brys yw'r lle i gleifion arbenigol aros am welyau. Mae hyn yn arwain at orlenwi, gofal nyrsio aneffeithlon, a chleifion a pherthnasau sydd yn anfodlon neu ymosodol.”

“Nid oes digon o le i asesu a thrin cleifion seiciatreg mewn ffordd sy'n ddiogel iddyn nhw a'r staff ... sy'n cydymffurfio â'r canllawiau.”

“Amgylchedd sydd wedi ei adeiladu'n annigonol ar gyfer darparu gofal pediatrig brys sy'n ddiogel ac urddasol.”

“Mae lefelau staff nyrsio o dan bwysau aruthrol ac mae hyn yn effeithio ar y cymysgedd sgiliau ar bob shifft. Mae addysgu wedi bod yn gyfyngedig ac felly yn effeithio ar gynnal a gwella sgiliau a gwybodaeth staff newydd a

phresennol. Mae'r lefelau salwch ac yna symud staff o'u rolau ... er mwyn llenwi bylchau yn cael effaith sylweddol ar forâl."

"Rydyn ni'n dibynnu'n drwm ar staff asiantaeth. Mae llawer o dasgau sy'n gofyn am fynediad penodol (Porth Clinigol Cymru, nwy gwaed a pheiriannau dadansoddi eraill), sy'n golygu bod staff craidd yn aml yn cael eu gorlwytho i sicrhau arferion gorau. Os dim ond un aelod o staff craidd sydd mewn ardal, mae'n ofynnol iddo frysbenneu, argraffu ffurflenni gwaed, cynnal y weithfan, archebu gwelyau, ac uwchgyfeirio problemau i'r nyrs â gofal, yn ogystal â rheoli goruchwylio'r staff nyrsio asiantaeth."

"Mae'r gweithlu meddygol wedi gwella'n sylweddol ond mae bylchau aml yn y rota a chymysgedd sgiliau gwael iawn ar brydiau o hyd. Ar yr adegau prysuraf (gyda'r nos / nosweithiau / penwythnosau), mae gennym ni brinder o feddygon, sydd angen ei adfer i gadw'r adran yn ddiogel."

"Mae morâl y staff ar ei isaf erioed."

"... mae nifer o staff ... wedi blino'n lân - byddai'n braf pe bai hyn yn cael ei gydnabod a'i gefnogi."

Roedd llai na hanner y staff a ymatebodd yn fodlon ar ansawdd y gofal yr oeddent yn ei roi i'r cleifion a byddai llai na hanner y staff yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio ac yn hapus â safon y gofal a ddarperid gan yr ysbyty pe bai angen cymorth ar ffrind neu berthynas.

Roedd bron pob un o'r staff a ymatebodd yn cytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i adrodd am gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau, ac roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod y staff dan sylw yn cael eu trin yn deg ac yn credu bod eu sefydliad yn cymryd camau i sicrhau nad yw camgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau yr adroddir amdanynt yn digwydd eto.

Roedd tua thri chwarter y staff a ymatebodd yn cytuno y gellir dibynnu ar eu rheolwr llinell uniongyrchol i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith a bod y rheolwr hwn yn gefnogol. Cytunodd dros hanner yr ymatebwyr fod eu rheolwr llinell uniongyrchol yn rhoi adborth clir iddynt am eu gwaith ac yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith. Derbyniwyd y sylw canlynol:

"O ran y rheolwyr llinell sy'n gweithio yn yr adran ochr yn ochr â staff eraill i ofalu am gleifion, rwy'n teimlo mai nhw yw'r rhai sy'n dal yr adran at ei gilydd, nhw yw'r rhai sydd ar gael i fynd atynt i gael cyngor a chefnogaeth. Nid wyf yn teimlo eu bod nhw'n cael eu clywed gan staff uwch."

Roedd tua dwy ran o dair o'r staff a ymatebodd yn anghytuno bod cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol a bod uwch-reolwyr yn ceisio cynnwys staff mewn penderfyniadau pwysig ac yn gweithredu ar adborth y staff. Yng ngeiriau'r staff:

“Nid yw [staff] uwch wedi gwranddo ar adborth ynghylch ... staff yn teimlo'n anniogel yn cael eu symud [rhwng] adrannau.”

“Rwy'n teimlo nad yw ein lleisiau yn yr Uned Achosion Brys yn cael eu clywed gan y sefydliad.”

“Mae'r uwch-reolwyr wedi gwneud ymdrech fawr i wella'r adran, ond mae angen gofalu'n well am y staff sy'n gweithio yno ar hyn o bryd...”

Roedd yr ymatebion a sylwadau gan y staff sy'n gweithio yn yr **Uned Asesu** yn nodi profiad staff negyddol ar draws llawer o feysydd ac roeddent yn debyg i'r ymatebion a sylwadau a wnaed gan staff yr Uned Achosion Brys.

Y prif feysydd y mynegodd y staff bryder yn eu cylch oedd:

- Diffyg hyfforddiant i'w paratoi ar gyfer y rôl a chyfleoedd gwael i ddatblygu
- Lefelau staffio annigonol
- Cyfarpar nad yw ar gael
- Llif cleifion gwael yn effeithio ar y gallu i ddarparu gofal diogel ac urddasol
- Perthynas wael rhwng y staff ac uwch-reolwyr
- Pwysau yn y gweithle yn effeithio ar iechyd a llesiant

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Nid yw cael cymhareb o un nyrs i saith claf pan fo cleifion yn ddifrifol wael yn dderbyniol.”

“Sicrhau nifer llawn o staff a[r] cymysgedd iawn [o] sgiliau...”

“Mae'r ysbyty yn anaddas i'r pwrpas. Mae angen ysbyty newydd, mwy o staff, meddygol a nyrsio. Mae gennym ni ffordd bell i fynd.”

“Dylid edrych ar amseroedd aros mewn cadeiriau. Gadael cleifion i eistedd mewn cadeiriau am 70 awr a mwy pan fyddant yn sâl.”

“Dylid darparu cyfleusterau cawod ... cleifion yn yr uned am ddyddiau heb unrhyw le i gael cawod.”

“... rydyn ni'n cael ein gwthio i'r eithaf ac rydw i a'm ffrindiau yn gadael y gwaith yn crio bob dydd...”

Roedd tua un rhan o dair o'r staff yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth yr oeddent yn eu rhoi i'r cleifion, ac y byddent yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio. Gwnaethom ofyn i'r staff a fyddent yn hapus gyda safon y gofal a ddarperir gan yr ysbyty iddynt hwy eu hunain, eu ffrindiau neu eu teulu, a dywedodd dau o'r 15 aelod o staff a ymatebodd y byddent.

Mae llai na hanner y staff a ymatebodd yn gweld canllawiau, rhybuddion diogelwch cleifion a rhybuddion dyfeisiau meddygol newydd yn rheolaidd a dim ond un rhan o bump oedd yn teimlo'n sicr eu bod yn cael eu cefnogi i weithredu a chadw at y rhain.

Cytunodd yr holl ymatebwyr fod eu sefydliad yn eu hannog i adrodd am gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau, ond roedd dros hanner yn teimlo bod y staff sy'n gysylltiedig yn cael eu trin yn annheg ac nad ydynt yn credu bod eu sefydliad yn cymryd camau i sicrhau nad yw camgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau yr adroddir amdanynt yn digwydd eto.

Cytunodd tua hanner yr ymatebwyr y gellir dibynnu ar eu rheolwr llinell uniongyrchol i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith a bod y rheolwr hwn yn rhoi adborth clir iddynt am eu gwaith. Roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cytuno bod eu rheolwr llinell yn gefnogol ac yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith.

Roedd yr holl staff a ymatebodd yn anghytuno bod y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol a bod yr uwch-reolwyr yn ceisio cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig ac yn gweithredu ar adborth y staff. Yng ngeiriau'r staff:

“Mae'r rhaniad rhwng yr uwch-reolwyr ... a'r staff ar lawr gwlad yn enfawr.”

“Does dim cefnogaeth oddi wrthynt.”

Darparodd uwch staff ddata ar hyfforddiant a gwblhawyd gan y staff sy'n gweithio yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu. Roedd hyn yn dangos bod cydymffurfedd y staff â hyfforddiant gorfodol yn amrywio rhwng 25% ac 80%, yn dibynnu ar y pwnc hyfforddi.

O'r data a ddarparwyd, gwnaethom nodi cydymffurfedd gwael ar gyfer hyfforddiant dadebru gorfodol. Roedd hyn yn dangos bod 29% o'r staff wedi derbyn hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol a bod 25% o'r staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar ym maes cynnal bywyd pediatrig. Gwelwyd cydymffurfedd da mewn perthynas â chanran y staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant trais ac ymddygiad ymosodol.

Cadarnhaodd tua dwy ran o dair o'r staff sy'n gweithio yn yr Uned Achosion Brys a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael hyfforddiant llawn ym mhob maes o fewn yr Uned Achosion Brys, ac roedd dros dri chwarter yn teimlo bod eu hyfforddiant, eu dysgu a'u datblygiad wedi eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, i aros yn gyfredol â gofynion proffesiynol, ac i ddarparu profiad gwell i'r cleifion. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae hyfforddiant digonol wedi'i ddarparu i mi allu gweithio o fewn [fy maes fy hun], ond rydym yn cael ein tynnu i [feysydd eraill] yn rheolaidd ac nid ydym wedi cael unrhyw hyfforddiant/cefnogaeth ar gyfer hyn.”

“Diwrnodau astudio wedi'u canslo oherwydd staffio.”

“Mae hyfforddiant mewn meysydd meddygol [i oedolion] yn cael ei gefnogi'n dda gan amserlen addysgu'r adran. Fodd bynnag, prin yw'r addysgu ar gyfer ... traws-gyflenwi yn y maes pediatreg.”

“Rwyf wedi derbyn hyfforddiant digonol ac yn cael fy nghefnogi gyda fy natblygiad proffesiynol parhaus.”

“... rwy'n teimlo'n gyfforddus ym mhob maes.”

Dywedodd dros hanner y staff a ymatebodd eu bod wedi cael adolygiad neu arfarniad blynyddol o fewn y 12 mis diwethaf.

Roedd tua hanner y staff sy'n gweithio yn yr Uned Asesu a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl ac roedd tua dwy ran o dair yn teimlo bod eu hyfforddiant, eu dysgu a'u datblygiad wedi eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, gan ddarparu profiad gwell i gleifion a'u helpu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“... mae'n cymryd misoedd, ac maent yn anghofio trefnu hyfforddiant ar eich cyfer.”

“Roedd cylchdroi ... i'r Uned Achosion Brys yn her. Ni chynigiwyd na ddarparwyd unrhyw gyfnod ychwanegol, ac ni chafwyd hyfforddiant ychwanegol am rai misoedd (os o gwbl), er bod y llwyth gwaith a'r math o waith yn wahanol iawn rhwng yr adrannau.”

“Wrth ddechrau a minnau newydd gymhwyso, ni allwn gyflawni fy rôl fel nyrs oherwydd diffyg hyfforddiant ym meysydd fel y peiriannau monitro gwaed (BM) a phrofion wrin ar y pwynt gofal, ac nid oeddwn i'n gallu cynnal profion nwy gwaed gwythiennol (VBG) / gwaed tan tua phum mis i mewn i'r swydd. Roedd hyn yn golygu bod gofal y cleifion yn cael ei beryglu / oedi gan fod yn rhaid i mi ofyn i aelodau eraill o staff wneud y rhain i mi.”

Dywedodd dwy ran o dair o'r staff a ymatebodd wrthym nad oeddent wedi cael adolygiad nac arfarniad blynyddol o fewn y 12 mis diwethaf.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch y cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch y cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon a nodwyd ar unwaith	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom dri chlaf nad oeddent yn gwisgo bandiau arddwrn adnabod cleifion.	Gall hyn gynyddu'r risg y bydd cleifion yn cael y feddyginiaeth anghywir neu'n cael triniaeth nas bwriadwyd ar eu cyfer.	Gwnaethom adrodd ar hyn i staff uwch.	Cadarnhaodd y staff uwch y byddai camau unioni'n cael eu cymryd.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Athrofaol Cymru - Uned Achosion Brys ac Uned Asesu

Dyddiad yr arolygiad: 20, 21 a 22 Mehefin 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am y camau a gymerwyd i hyrwyddo dihalogi ac atal a rheoli heintiau effeithiol.	Safon 2.4 Atal a rheoli heintiau dihalogi	Mae cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer dydd Llun, 4 Gorffennaf 2022 gyda staff ystadau i bennu rhestr o waith i fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol.	Nyrs arwain / Rheolwr Gwasanaeth yr Uned Achosion Brys / Uned Asesu	4 Gorffennaf 2022
		Mae rhestr ffurfiol i wirio'n ddyddiol wedi'i datblygu ar gyfer y nyrs â gofal a bydd yn cael ei gweithredu i sicrhau glendid y llefydd golchi, y caiff gwiriadau o'r comodau eu cwblhau, a glendid a chywirdeb y cyfarpar. Fe'i hychwanegwyd at yr amserlen archwilio / meddalwedd Tendable (achredu wardiau, system archwilio ddigidol).	Nyrs arwain	8 Gorffennaf 2022

Mae rhestr wirio wythnosol i'r uwch-reolwyr wedi'i rhoi ar waith i sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu bodloni. Mae archwiliadau ychwanegol wedi'u hychwanegu at y cynllun archwilio. Gofynnwyd i staff atal a rheoli heintiau gynnal archwiliad atal a rheoli heintiau llawn.

Nyrs arwain / tîm atal a rheoli heintiau'r Bwrdd Iechyd Prifysgol

Wedi'i gyflawni

Mae gan y Groes Goch gontract yn yr adran i gefnogi mesurau ansawdd a diogelwch cleifion. Bydd staff y Groes Goch yn monitro ac yn sicrhau bod peiriannau hylif diheintio dwylo sydd wedi'u gosod ar waliau yn cael eu llenwi neu fod hylif diheintio amgen ar gael. Gwelwyd tystiolaeth o hyn trwy gwblhau eu rhestr wirio ddyddiol.

Nyrs arwain

Wedi'i gyflawni

Bydd pob bin ar draws ôl troed yr Uned Achosion Brys / Uned Asesu yn cael ei disodli â bin plastig. Mae'r newid hwn

Rheolwr Gwasanaeth yr Uned Achosion Brys

29 Gorffennaf 2022

eisoes wedi dechrau ac mae disgwyl i ragor o finiau gael eu danfon.

Mae amser glanhau penodedig wedi'i ymgorffori ym mhatrwm shifftiau un o'n gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Cynhaliwyd adolygiad o wasanaethau cadw tŷ yn yr Uned Achosion Brys a rhoddwyd y camau gweithredu canlynol ar waith i wella'r broses:

- Mae cod QR wedi'i weithredu yn yr adran i alluogi'r staff i gyflwyno ceisiadau cadw tŷ ychwanegol.
- Bydd effeithiolrwydd y broses newydd yn cael ei fonitro mewn cyfarfod wythnosol a drefnir rhwng uwch-reolwyr y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt a'r tîm cadw tŷ i godi / mynd ar drywydd unrhyw bryderon, e.e. pwysigrwydd ysgrifennu'r dyddiadau ar lenni tafladwy sy'n cael eu newid. Bydd y rhain yn cychwyn ar 14

Nyrs arwain

Wedi'i gyflawni

Nyrs arwain

Wedi'i gyflawni

		Gorffennaf am 9am a chânt eu cynnal bob wythnos wedi hynny.		
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel.	Safon 2.6 Rheoli meddyginiaethau	Mae cais cyfalaf wedi'i gyflwyno ar gyfer gosod mynediad system TDSi i'r ystafell feddyginiaeth yn yr ardal triniaethau dydd.	Rheolwr Gwasanaeth yr Uned Achosion Brys	Wedi'i gyflawni
		Mae'r holl ddrysau/cypryddau a dorrwyd wedi cael eu hadrodd i'r tîm ystadau.	Rheolwr Gwasanaeth yr Uned Achosion Brys	Wedi'i gyflawni
		Mae bathodynau ychwanegol wedi'u darparu gan swyddogion diogelwch ar gyfer y staff dros dro / nyrsys asiantaeth er mwyn sicrhau mynediad priodol i ardaloedd meddyginiaeth.	Rheolwr Gwasanaeth yr Uned Achosion Brys	8 Gorffennaf 2022
		Archebu offer:- <ul style="list-style-type: none"> • Dalwyr silindrau ocsigen • Mae troli sepsis y gellir ei gloi wedi'i gaffael a bydd yn cael ei ddsbarthu maes o law 	Nyrs arwain / Rheolwr Gwasanaeth yr Uned Achosion Brys	Wedi'i gyflawni

		<ul style="list-style-type: none"> Mae thermomedrau i fonitro tymheredd amgylchynol yn yr ystafelloedd meddyginiaeth wedi'u harchebu <p>Mae'r tîm uwch-reolwyr yn gweithio ar y cyd â'r fferyllfa i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol o ran safonau rheoli meddyginiaethau.</p> <p>Mae rheoli meddyginiaethau wedi cael ei ymgorffori yn rhestr wirio ddyddiol y nyrs â gofal a rhestr wirio wythnosol yr uwch-reolwyr i sicrhau y glynir at brosesau rheoli meddyginiaethau, gan gynnwys gwirio cyffuriau a reolir a thymheredd oergelloedd. Mae wedi cael ei ychwanegu at archwiliadau a drefnwyd / meddalwedd Tendable.</p>	Nyrs arwain / fferyllfa	25 Gorffennaf 2022
			Nyrs arwain	11 Gorffennaf 2022
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod cynnwys y troliau dadebru yn cael ei wirio'n rheolaidd a bod cofnod cywir o'r gwiriadau hyn yn cael ei gadw.	Safon 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Bydd rhestr wirio ddyddiol y nyrs â gofal yn cynnwys gwirio offer meddygol, gan gynnwys troliau dadebru, diffibrilwyr a throliau llwybr anadlu.		
		Mae'r uwch-reolwyr yn y broses o weithredu'r system archwilio electronig (Tendable), ac mae hon yn caniatáu hysbysiad e-bost ac anfonir adroddiad yn awtomatig ar ôl ei gwblhau gan y nyrs â	Nyrs arwain	22 Gorffennaf 2022

		<p>gofal. Mae prosesau llywodraethu yn cael eu hadolygu o amgylch cwblhau'r archwiliad a'r camau gweithredu dilynol, a bydd defnydd o system archwilio wardiau Tendable yn cynorthwyo gyda hyn.</p> <p>Mae'r tîm addysg yn llunio rhestr 'rolau a chyfrifoldebau' ar gyfer y staff sy'n gyfrifol am bob maes unigol er mwyn sicrhau bod y gwiriadau diogelwch priodol yn cael eu cynnal a'u harchwilio.</p> <p>Mae'r holl eitemau sydd wedi dod i ben neu ar goll ar y troli llwybr anadlu anodd wedi'u disodli ac mae offer ychwanegol wedi'u harchebu.</p>	<p>Nyrs arwain</p> <p>Nyrs arwain</p>	<p>22 Gorffennaf 2022</p> <p>Wedi'i gyflawni</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi sicrwydd bod y gofal a ddarperir yn diwallu anghenion y cleifion.</p>	<p>Safon 2.2 Atal niwed pwyso a niwed i feinwe</p> <p>Safon 2.3 Atal cwympiadau</p> <p>Safon 2.5</p>	<p>Er mwyn sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau ac y cedwir cofnodion yn gywir,</p> <p>mae'r tîm addysg wedi datblygu dogfen rhestr wirio i annog y staff i gwblhau pob asesiad risg. Bydd hon yn cael ei gweithredu ar 17 Gorffennaf ar ôl wythnos o addysg. Yn ystod yr wythnos</p>	<p>Nyrs arwain</p>	<p>17 Gorffennaf 2022</p>

Maeth a hydradu Safon 3.1	yn cychwyn 10 Gorffennaf, bydd pob diwrnod yn cynnwys addysg newydd ar asesiad risg gwahanol.		
Gofal diogel a chlinigol effeithiol Safon 3.5	Mae archwiliad dyddiol ar waith ar hyn o bryd i arsylwi arferion. Bydd hwn yn parhau trwy dreialu dogfennau'r rhestr wirio.	Nyrs arwain	Wedi'i gyflawni
Cadw cofnodion	Mae cais am gynorthwyyr deieteg parhaol wedi'u lleoli yn yr Uned Achosion Brys / Uned Asesu wedi cael ei gyflwyno. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys:- <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau maeth a hydradiad pob claf • Cwblhau asesiadau risg Mae bwrdd addysg yn ymwneud ag asesiadau risg ar gyfer cwmpadau a champau priodol y dylid eu cymryd i helpu i atal cwmpadau wedi'i roi ar waith. Bydd archwiliad cydymffurfedd yn barhaus.	Nyrs arwain	25 Gorffennaf 2022
	Cyflwyniadau misol yn yr adolygiad ansawdd a dioglewch a pherfformiad i'r nyrs arwain ar ganlyniadau archwiliadau a chynnydd cynlluniau gweithredu. Bydd	Nyrs arwain	25 Gorffennaf 2022

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Athrofaol Cymru - Uned Achosion Brys ac Uned Aseu

Dyddiadau'r arolygiad: 20, 21 a 22 Mehefin 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodir yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am y camau a gymerwyd i sicrhau bod gwybodaeth a chyngor hyrwyddo iechyd perthnasol a chyson ar gael i gleifion yn yr Uned Aseu.	Safon 1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae'r gyfarwyddiaeth yn adolygu'r cyngor hybu iechyd cyfredol a arddangosir ym mhob rhan o'r adran, er mwyn sicrhau cysondeb a hygyrchedd gwybodaeth i gleifion ledled yr adran.	Nyrs Arwain	31 Hydref 2022
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau gweithredu i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas a chysur y cleifion yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Aseu.	Safon 4.1 Gofal ag urddas	Yn ddiweddar, mae'r gyfarwyddiaeth wedi derbyn cadeiriau gogwyddol newydd ar ochr ddeheuol yr Uned Aseu ac mae 20 o gadeiriau cefn uchel pellach wedi'u harchebu ac mae'r seddau yn yr ystafell aros i'w hailosod. Mae archebion lliain	Tîm y gyfarwyddiaeth / Nyrs Arwain yr Uned Achosion Brys	Wedi'i gwblhau

		<p>wedi'u cynyddu i sicrhau cyflenwad digonol.</p> <p>Er mwyn sicrhau preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion, bydd pob claf yn derbyn ei ymgynghoriad a'i asesiad yn un o'r ystafelloedd archwilio pwrpasol drws nesaf i'r ardal hon.</p> <p>Cyflwynwyd cynigion cyfalaf ar gyfer gwaith ystadau o fewn yr adran. Mae'r gofyniad am gyfleuster cawod ychwanegol i gleifion yn cael ei symud ymlaen fel blaenoriaeth ond bydd angen gwaith dylunio.</p> <p>Bydd gwaith arall a nodwyd, gan gynnwys uwchraddio ystafelloedd newid, goleuo, ac ailaddurno'r Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu, yn cael ei adolygu a chaiff opsiynau eu datblygu a'u costio. Bydd angen nodi ffynonellau</p>	<p>Tîm y gyfarwyddiaeth / Nyrs Arwain yr Uned Achosion Brys</p> <p>Cyfarwyddwr Cynllunio Cyfalaf ac Ystadau</p> <p>Cyfarwyddwr Cynllunio Cyfalaf ac Ystadau</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Tachwedd 2022</p> <p>31 Hydref 2022</p>
--	--	---	---	--

		<p>cyllid i symud y gwaith yn ei flaen.</p> <p>Mae achos busnes yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar gyfer ffenestri to artiffisial ar gyfer yr ardaloedd clinigol heb olau naturiol i wella'r amgylchedd a bydd hwn yn cael ei gyflwyno i'r adran ystadau a chyfleusterau cyfalaf.</p> <p>Mae ôl troed presennol yr uned meddygaeth aciwt yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i werthuso'r ffordd orau o ddefnyddio'r ardal er mwyn sicrhau'r budd mwyaf. Bydd hon yn eitem ar yr agenda yn y fforwm ansawdd a diogelwch ac yn cael ei thrafod trwy strwythur y bwrdd clinigol.</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol a Nyrs Arwain yr Uned Achosion Brys</p> <p>Pennaeth Cynllunio Gwasanaethau / Rheolwr Cyffredinol a Nyrs Arwain yr Uned Achosion Brys</p>	<p>Rhagfyr 2022</p> <p>Rhagfyr 2022</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu.</p>	<p>Safon 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol</p>	<p>Mae gan bob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg y symbol Cymraeg ar eu gwisg i ddangos eu bod yn gallu sgwrsio yn Gymraeg.</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol a Nyrs Arwain yr Uned Achosion Brys</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

		<p>Mae poster wedi ei osod o fewn yr adran yn hysbysu cleifion o arwyddocâd y symbol Cymraeg.</p> <p>Mae system Audiebant yr adran yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p> <p>Cynhelir adolygiad llawn o arwyddion yn yr adran. Bydd yr adran yn sicrhau bod holl arwyddion yr adran yn Gymraeg ac yn Saesneg</p> <p>Mae aelodau staff wedi cael gwybod am yr angen i ateb ffonau yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Mae cerdyn gweithredu'r Gymraeg wedi'i osod wrth y ffôn a derbynfeydd i atgoffa a chefnogi staff o'r cyfarchiad priodol yn Gymraeg wrth ateb y ffôn ac yn bersonol.</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol a Nyrs Arwain yr Uned Achosion Brys</p> <p>Rheolwr Cyffredinol a Nyrs Arwain yr Uned Achosion Brys</p> <p>Rheolwr Cyffredinol a Nyrs Arwain yr Uned Achosion Brys</p> <p>Rheolwr Cyffredinol a Nyrs Arwain yr Uned Achosion Brys</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>31 Hydref</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a	Safon 6.3	Mae'r gyfarwyddiaeth wedi archebu byrddau gwybodaeth i	Tîm y Gyfarwyddiaeth	Wedi'i gwblhau

<p>gymerwyd i wneud cleifion a'u cynrychiolwyr yn ymwybodol o 'Gweithio i Wella'.</p>	<p>Gwrando a dysgu o adborth</p>	<p>arddangos gwybodaeth am sut i godi pryderon, ac mae'r adran yn gweithio'n agos gyda'r tîm pryderon ar gyfer eitemau arddangos.</p> <p>Mae dolen y Bwrdd Iechyd Prifysgol i wybodaeth Gweithio i Wella yn cael ei hychwanegu at nifer o adnoddau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Poster arolwg • Arolwg ar-lein • Taflenni Gweithio i Wella • Peiriannau Hapus neu Ddim <p>Mae taflenni a phosteri Gweithio i Wella wedi'u diweddarau ac wedi'u dosbarthu i'w harddangos.</p> <p>Bydd gan wirfoddolwyr yr Uned Achosion Brys fynediad at daflenni Gweithio i Wella wedi'u diweddarau a gwybodaeth am broses gwyno'r Bwrdd Iechyd</p>	<p>Tîm Profiad y Claf</p> <p>Tîm Profiad y Claf</p> <p>Tîm Profiad y Claf</p>	<p>30 Medi 2022</p> <p>30 Medi 2022</p> <p>30 Medi 2022</p>
---	----------------------------------	---	---	---

		Prifysgol i'w galluogi i gyfeirio cleifion a'u cynrychiolwyr.		
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i rannu adborth y cleifion â staff ac i ddangos y gweithredwyd ar hyn.	Safon 6.3 Gwrando a dysgu o adborth	Mae'r gyfarwyddiaeth yn creu bwrdd gwybodaeth i staff rannu adborth, gan gynnwys canmoliaeth a phryderon gan gleifion, a chanlyniadau o ddigwyddiadau adroddadwy cenedlaethol.	Nyrs Arwain	31 Hydref 2022
		Mae strategaeth gyfathrebu ar gyfer y gyfarwyddiaeth yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â'r tîm cyfathrebu.	Nyrs Arwain	31 Hydref 2022
		Mae'r gyfarwyddiaeth yn gweithio'n agos gyda'r tîm diogelwch cleifion i wneud defnydd llawn o nodweddion system DATIX i'w galluogi i dynnu themâu o ddigwyddiadau yr	Nyrs Arwain	31 Hydref 2022

		adroddwyd amdanynt y gellir eu rhannu â staff.		
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod amgylchedd yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu yn cael ei gynnal i safon ddigonol ac i wella'r cyfleusterau yn y ddwy uned.	Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae amser penodedig yn cael ei neilltuo i aelod o staff gynnal archwiliadau atal a rheoli heintiau mewnol. Tacluso ardaloedd a datrys camau gweithredu sy'n codi o'r archwiliadau clinigol. Mae gweithredu'r platfform archwilio Tendable yn cefnogi rhaglen archwilio barhaus wedi'i hamserlennu sy'n cynnwys adolygiad amgylcheddol.	Nyrs Arwain Nyrsio Corfforaethol / Nyrs Arwain yr Uned Achosion Brys	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion am y camau a gymerwyd i ymateb i sylwadau llai ffafriol y staff mewn perthynas ag argaeledd cyfarpar a mynd i'r afael â nhw.	Safon 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Mae swydd newydd yn cael ei datblygu i sicrhau bod yr holl offer yn yr adran yn cael eu gwasanaethu, eu cynnal a'u cadw a'u dihalogi'n rheolaidd ac i gefnogi atgyweiriadau amserol pan fo angen.	Cyfarwyddiaeth, rheolwr gwasanaeth	Tachwedd 2022

		Mae cyfarfod wedi'i drefnu rhwng Peirianeg Feddygol, Peirianeg Fecanyddol a'r Uned Achosion Brys i sicrhau dull cydweithredol o gynnal asesiad sylfaenol i werthuso gofynion a risgiau'r adran sy'n ymwneud â hygyrchedd offer.	Pennaeth Peirianeg Glinigol / Rheolwr Cyffredinol yr Uned Achosion Brys a Nyrs Arwain	31 Hydref 2022
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion am y camau a gymerwyd i ymateb i sylwadau staff mewn perthynas â mynediad at systemau TGCh.	Safon 3.4 Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu	Mae tîm y gyfarwyddiaeth wedi cynnal archwiliad offer TG sylfaenol yn yr adran i lywio'r camau gweithredu angenrheidiol.	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Wedi'i gwblhau
		Mae cyfrifiaduron personol ychwanegol wedi'u gosod mewn ardaloedd yn ogystal â cherti symudol.	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Wedi'i gwblhau
		Cynhelir ymarfer cwmpasu i adolygu systemau rheoli presennol y Bwrdd Iechyd Prifysgol sydd ar waith / sy'n cael eu gweithredu a gwerthuso'r system TG sydd ar waith yn yr	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Tachwedd 2022

		<p>Uned Achosion Brys a sefydlu system cymorth TG bwrpasol.</p> <p>Bydd y rôl sydd newydd ei datblygu ar gyfer cynnal a chadw offer hefyd yn cynnwys goruchwyllo systemau TG o fewn yr adran i ddatrys neu uwchgyfeirio materion TG mewn modd amserol o fewn yr adran.</p>	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Tachwedd 2022
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i geisio sicrwydd bod gweithgarwch archwilio a phrosesau dilynol yn effeithiol.</p>	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	<p>Mae'r gyfarwyddiaeth yn symud i offeryn archwilio digidol mewnol. Bydd camau gweithredu sy'n deillio o hyn yn cael eu casglu ar gronfa ddata lle gellir dyrannu problemau i'w datrys a'u holrhain i gofnodi cynnydd a phryd maent yn cael eu cwblhau.</p> <p>Mae'r platfform archwilio Tendable wedi'i roi ar waith yn yr Uned Achosion Brys ac mae rhaglen archwilio wedi'i threfnu wedi'i datblygu i sicrhau adolygiad dilynol.</p>	<p>Tîm y gyfarwyddiaeth</p> <p>Nyrsio corfforaethol tîm y gyfarwyddiaeth</p>	<p>31 Hydref 2022</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ymateb i ymatebion llai ffafriol y staff i rai o'r cwestiynau a nodir yn adran 'Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth' yr adroddiad hwn.</p>	<p>Safon 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Mae cyfarfodydd tîm misol sy'n benodol i fand yn cael eu cynnull i'w cynnal bob yn ail fis.</p> <p>Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio wedi cyfarfod â'r uwch-dîm arwain ynghyd â'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i gydlynu rhaglen ddatblygu.</p> <p>Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio yn cyfarfod â fforwm Band 7.</p> <p>Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant yn cynnal cyfarfod goruchwyllo misol ar gyfer yr Uned Achosion Brys i adolygu'r camau gweithredu a rhaglen wella ehangach.</p>	<p>Nyrs Arwain yr Uned Achosion Brys</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio</p> <p>Tîm Gweithredol</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Tachwedd 2022</p> <p>30 Medi 2022</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
--	---------------------------------	---	--	--

		Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso yn cyfarfod â'r tîm o uwch-nyrsys a nyrsys arwain bob pythefnos.	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso	Wedi'i gwblhau
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion am y camau a gymerwyd i wella cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau staff.	Safon 7.1 Gweithlu	Mae cynllun addysg wedi'i sefydlu i sicrhau gwell cydymffurfedd ar gyfer cynnal bywyd oedolion a phediatreg (cyrsiau wyneb yn wyneb).	Nyrs Arwain yr Uned Achosion Brys	Tachwedd 2022
		Mae cynllun addysg yn cael ei ddatblygu i wella cydymffurfedd e-ddysgu gorfodol o fewn y gyfarwyddiaeth - i ddarparu llwybr ar gyfer canrannau cydymffurfedd.	Nyrs Arwain yr Uned Achosion Brys	Wedi'i gwblhau
		Mae'r gyfarwyddiaeth wedi cymryd y camau canlynol i wella cydymffurfedd ag arfarniadau staff a hyfforddiant gorfodol. <ul style="list-style-type: none"> Mae arweinwyr tîm wedi cael diwrnod neilltuedig i 	Nyrs Arwain yr Uned Achosion Brys	1 Tachwedd 2022

gwrdd â'u tîm i gwblhau Arfarniadau ar Sail Gwerthoedd.

- Mae lleoedd wedi cael eu cadw i staff ar sesiynau cefnogi e-ddysgu gyda'r Tîm Addysg.
- Bydd cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau staff yn cael ei fonitro'n fisol trwy gyfarfodydd y tîm uwch-reolwyr.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad: